COMMUNITY SUPPORTED AGRICULTURE

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Social Farms & Gardens
Ffermydd a Gerddi Cymdeithasol

TYFU CYMRU
GROW WALES

# AGG – Crynodeb



# Cynnwys


1. Effaith Cynlluniau Amaethyddiaeth a Gefnogir gan y Gymuned yng Nghymru 3
2. Effaith AGG yng Nghymru mewn ystadegau ....5
3. Prosiectau AGG yng Nghymru ....6
4. Buddion economaidd ....7
5. Buddion amgylcheddol ....8
6. Buddion cymdeithasol ....9
7. Cyweddu strategaethau ....10
8. Busnesau bwyd cymunedol eraill ....11
9. Cyfeiriadau ....11

# Effaith Cynlluniau Amaethyddiaeth a Gefnogir gan y Gymuned yng Nghymru

Partneriaeth rhwng ffermwyr a defnyddwyr yw cynlluniau Amaethyddiaeth a Gefnogir gan y Gymuned, lle mae'r cyfrifoldebau, y risgiau a'r buddion yn cael eu rhannu. Yn ymarferol, fel arfer mae'n golygu fod grŵp o bobl yn y gymuned ('yr aelodau') yn ymrwymo i brynu cyfran o gynnyrch fferm leol am flwyddyn. Wrth brynu cyfran o'r cynnyrch, yn hytrach na swm pendant, mae'r aelodau'n ysgwyddo rhywfaint o'r risg sydd ynghlwm wrth gynhyrchu bwyd.

Mae AGG yn fwy na ffordd wahanol yn unig o werthu bwyd. Mae busnesau'n meithrin cymunedau ar sail bwyd lleol. Yn aml mae'r aelodau'n gysylltiedig â rhedeg y busnes, er enghraifft gwirfoddoli yn y caeau neu'r sied pecynnu, helpu gydag agweddau megis rheolaeth ariannol a marchnata a hwyluso mynediad at dir neu fuddsoddiad cyfalaf. Mae dathlu ar y cyd trwy bartïon a digwyddiadau cymdeithasol eraill yn rhan annatod o feithrin cymuned.

Mae dysgu a sgiliau'n brif ffocws llawer o fentrau AGG. Mae aelodau'n dysgu sgiliau newydd trwy wirfoddoli, ac mae llawer o fusnesau'n trefnu gweithdai a digwyddiadau eraill ar gyfer aelodau a'r gymuned ehangach. Yn ogystal â dysgu anffurfiol, mae rhai busnesau'n cydweithio'n agos gydag ysgolion, prifysgolion a sefydliadau ymchwil eraill.

Mae'r ddogfen hon yn cyfleu trosolwg o AGG yng Nghymru, ac yn tynnu sylw at y buddion ar gyfer busnesau AGG, y cymunedau a wasanaethir ganddynt, a'r amgylchedd. Fe'i seilir ar ymchwil a gynhaliwyd rhwng Chwefror ac Ebrill 2020 gyda chefnogaeth Ffermydd a Gerddi Cymdeithasol, Tyfu Cymru a Rhwydwaith AGG y DU.



**Cynhaliwyd yr ymchwil gyda 10 AGG sefydledig yng Nghymru. Ymhlith y data a gasglwyd roedd:**

**Data gwaelodlin** - Mentrau; arwynebedd tir; nifer y gweithwyr; nifer yr aelodau; nifer y gwirfoddolwyr

**Buddion economaidd** - Cadernid ariannol; cyfraniad aelodau AGG at fuddsoddiad cyfalaf, mynediad at dir a rheolaeth ariannol

**Buddion amgylcheddol** - Systemau cynhyrchu organig ac amaethecolegol

**Buddion cymdeithasol** - Diogelwch bwyd; cydlyniant cymdeithasol ac ehangu rhwydweithiau cymdeithasol; iechyd meddwl a llesiant; diet; sgiliau, addysg a dysgu

**Casglwyd yr wybodaeth trwy**

Arolwg trwy e-bost o gynhyrchwyr AGG / rheolwyr busnes (7 ymateb)

Arolwg ar-lein o aelodau AGG (95 ymateb)

Cyfweliadau a gweithdai ar sail grwpiau ffocws gydag aelodau a chynhyrchwyr

Gweler yr adroddiad llawn **yma**

# Effaith AGG yng Nghymru mewn ystadegau

**10** Busnes AGG sefydledig

**11** Menter AGG yn cael eu datblygu

**500** teulu sy'n cael eu bwydo'n flynyddol

**19,000** o gyfrannau llysiau, 500 Kg o gig eidion a 4000 torth o fara'r flwyddyn

**70** Hectar o dir

Roedd aelodau'n gysylltiedig â chaffael tir mewn **40%** achos

Codwyd **£17,500** gan aelodau cymunedol ar gyfer seilwaith

Cefnogwyd **15** o swyddi cyfwerth ag amser llawn

**100** o wirfoddolwyr rheolaidd

**63%** o aelodau wedi dysgu mwy ac yn deall mwy am gynhyrchu bwyd a materion cynaliadwyedd

**55%** o aelodau AGG wedi dysgu sgil newydd neu wedi gwella sgil oedd ganddynt eisoes

**58%** wedi gwella eu sgiliau coginio o ganlyniad i ymaelodi ag AGG

Cyflenwyd **5** prosiect ysgol

Cyflenwyd **1** prosiect gwyddoniaeth i ddinasyddion

**91%** aelodau wedi nodi i AGG gael effaith gadarnhaol ar eu hwyliau, eu llawenydd cyffredinol a'u llesiant

**62%** o aelodau wedi dewis bwyd iachach o ganlyniad i fod yn aelod o AGG. 80% wedi cynyddu amrywiaeth eu diet

**90%** wedi nodi cynnydd yn eu rhwydweithiau cymdeithasol o ganlyniad i fod yn aelodau AGG

**74%** wedi dweud y bu cynnydd yn eu hymwybyddiaeth o'u cymunedau (gweithgareddau, prosiectau, diwylliannau gwahanol)

# Prosiectau AGG yng Nghymru

## Garddwriaeth

Mae mwyafrif y cynlluniau AGG yng Nghymru (8 allan o 10) yn fusnesau garddwriaethol. Mentrau bach amrywiol a seilir ar erddi marchnad yw'r rhain, sy'n tyfu ar 1 - 5 hectar o dir. Maent yn cynhyrchu amrywiaeth eang o gnydau (fel arfer rhwng 30 a 40) gan gynnwys cnydau a ddiogelir a chnydau cae. Mae'r rhan fwyaf o fentrau AGG yn anelu at gynhyrchu trwy gydol y flwyddyn. Mae rhai'n llwyddo i gyflenwi aelodau gyda chynnyrch a dyfir ar y fferm yn unig, ond mae rhai'n prynu cynnyrch yn ystod y bwlch newynog er mwyn sicrhau amrywiaeth yr hyn a gynigir i aelodau.

## Cig Eidion

Menter cadwraeth pori yw'r AGG Cig Eidion a leolir ar dir comin ar benrhyn Gŵyr. Mae pum buwch yn pori comin 40 hectar, ac yn helpu rheoli tyfiant er budd bywyd gwyllt. Mae aelodau'r gymuned yn gyfrifol am edrych ar ôl y da byw ac yn talu am y cig ymlaen llaw.

## Bara

Mae'r popty a gefnogir gan y gymuned yn tyfu rhywogaethau gwenith pwrpasol ar 13 hectar o dir yn Sir Benfro, ac maent yn malu ac yn pobi ar y safle. O fis Gorffennaf 2020 ymlaen, y bwriad yw cynyddu'r cynhyrchiant o 80 i 240 torth yr wythnos.



# Buddion economaidd

Trwy ddarparu sicrwydd incwm am gyfnod, blwyddyn fel arfer, mae aelodau AGG yn gwneud cyfraniad arwyddocaol i gadernid ariannol y busnes. Mae taliadau penodol rheolaidd yn helpu lliniaru problemau o ran llif arian, sydd yn broblem i gynhyrchwyr bwyd ledled y byd, a galluogi cynllunio ariannol effeithiol.

**"Mae'n ein helpu talu am fewnbwn a chyflogau yn ystod adegau tawelach y flwyddyn o ran cynhyrchiant."**
**Arolwg y cynhyrchwyr**

**"Mae'n helpu talu costau ymlaen llaw ac yn bwysig i hyfywedd y busnes."**
**Arolwg y cynhyrchwyr**

**"Ni fyddai'r busnes yn gallu ymdopi fel arall."**
**Arolwg y cynhyrchwyr**

Hefyd mae aelodau wedi cyfrannu at gadernid ariannol mewn ffyrdd eraill. Mae rhai wedi cynnig credyd i'r busnes, yn bennaf i dalu costau cyfalaf a chostau seilwaith. Mae'r trefniadau hyn wedi helpu AGG i leihau neu ddileu costau benthyg, ac wedi cryfhau'r berthynas rhwng y gymuned a'r busnes.

Cefnogwyd **15** **o swyddi cyfwerth ag amser llawn** trwy brosiectau AGG ar y cyd trwy Gymru.

Os nad oedd aelodau mewn sefyllfa i gynnig credyd, cynigiwyd eu hamser ac arbenigedd fel gwirfoddolwyr i helpu'r busnes gael mynediad at grantiau neu i redeg ymgyrchoedd cyllido torfol. Yn aml maent wedi chwarae rhan fwy strategol er enghraifft trwy gadw trosolwg ariannol, ac wedi helpu gyda'r cyfrifon a chadw'r llyfrau ar sail wirfoddol.

Mewn 4 o bob 10 achos, mae aelodau'r AGG wedi gwneud cyfraniad sylweddol i hwyluso mynediad at dir, naill ai trwy gynnig eu tir eu hunain am rent ffafriol neu rent rhad neu hwyluso trwy eu rhwydweithiau cymdeithasol a phroffesiynol.

Hefyd arweiniodd busnesau AGG at fuddion i'r gymuned ehangach. Ar y cyd, mae busnesau AGG yng Nghymru wedi cynnal 15 o swyddi llawn amser a dywedodd 70% o aelodau fod hyn yn bwysig o ran annog pobl i ymaelodi. Ym marn 83%, roedd cynnig mwy o gefnogaeth i gynhyrchwyr bwyd lleol yn 'bwysig iawn'.

Dengys ymchwil arall y cedwir, ailgylchir ac ailddefnyddir gwerth £29 o fudd ariannol yn yr economi lleol am bob £10 sy'n cael ei wario, yn hytrach na diflannu o wariant mewn archfarchnad.

**Mae aelodau wedi darparu neu hwyluso gwerth £17,500 o gredyd i brosiectau trwy :**

- Benthyciadau llog isel/dim llog
- Prynu 5 mlynedd o gynnyrch ymlaen llaw
- Llunio ceisiadau cyllido torfol
- Rhedeg ymgyrchoedd cyllido torfol

Data o arolwg y cynhyrchwyr

**"Mae cynhyrchwyr bwyd lleol yn cyfrannu at feithrin economi lleol cadarn, mae'n hynod bwysig i mi a'm teulu gallu cymryd rhan mewn cynhyrchu bwyd lleol."**

**Gyfweliad ag aelod o AGG**

# Buddion amgylcheddol

Cynhyrchu bwyd cynaliadwy oedd un o'r prif resymau dros aelodau cymunedau'n ymuno ag AGG yn y lle cyntaf.  Barn 90% o aelodau oedd bod egwyddorion ffermio organig yn bwysig 'iawn neu'n 'weddol' bwysig iddyn nhw, a dywedodd 95% taw moeseg y busnes a'u denodd.

Mae gan **4 o'r 10** busnes gweithredol dystysgrifau cynnyrch organig.

Yng Nghymru, mae gan 4 o'r 10 busnes gweithredol dystysgrifau cynnyrch organig. Ym marn prosiectau eraill, nid oedd angen tystysgrif oherwydd y cysylltiad agos rhwng aelodau/defnyddwyr a'r fferm a'r polisi fferm agored sy'n caniatáu ymweld â'r fferm ar unrhyw adeg.

Seilir y berthynas rhwng cynhyrchwyr a defnyddwyr ar ffydd, sy'n ganolog i AGG.

> **"Mae gen i ffydd yn y bwyd rwyf yn ei fwyta, ac rwyf yn teimlo'n rhan o gymuned o bobl o'r un feddwl.  Mae'r bwyd yn ffres ac yn lleol, ac felly'n llawn maeth a chyfrifol o safbwynt amgylcheddol"**
>
> **AGG i'r arolwg**

## Prif fuddion amgylcheddol ffermio organig ac amaethecolegol:

- Gollyngiadau carbon is, sy'n gysylltiedig â defnyddio gwrtaith anifeiliaid a gwyrdd yn lle gwrthaith synthetig.
- Dal a storio mwy o garbon trwy gynyddu deunydd organig y pridd.
- Llai o lygredd oherwydd defnyddio mathau gwrtaith llai hydawdd nad ydynt yn diferu i'r dŵr.
- Mwy o fioamrywiaeth trwy atal neu gyfyngu i raddau helaeth defnydd o blaladdwyr a systemau cnydau amrywiol (sy'n golygu hyd at 40 o gnydau gwahanol yn achos sytemau gerddi marchnad.
- Safonau lles uwch i anifeiliaid.

# Buddion cymdeithasol

Dywedodd dros 90% o aelodau fod AGG wedi cael effaith gadarnhaol ar eu hwyliau a llawenydd cyffredinol. Ymddengys fod hyn yn ymwneud yn bennaf â bod yn rhan o gymuned a chwrdd â phobl newydd o gefndiroedd gwahanol.

Ymddengys fod cydweithio, boed yn gwirfoddoli ar y cae neu weithio ar brosiect penodol megis adeiladu storfa / sied pecynnu llysiau, yn ffordd hynod rymus o gynyddu cydlyniant cymunedol a theimlad o ddiben cyffredin. Mae traean o Aelodau AGG 'fel arfer' neu ' yn aml' yn cymryd rhan mewn gwaith gwirfoddol, gyda 53% arall yn 'gwneud ychydig bach'.

Roedd grymuso yn thema gyffredin. Mynegwyd hyn yn rhannol fel gallu cymryd camau positif i fynd i'r afael â phroblemau amgylcheddol ac o ran systemau bwyd oedd yn achos pryder i aelodau. Roedd aelodau hefyd yn gwerthfawrogi gallu cael dylanwad ar ddulliau cynhyrchu bwyd trwy'r AGG ei hun; roedd 73% o'r farn eu bod yn gallu dweud eu dweud ynghylch 'sut y cynhyrchir y bwyd' ac roedd 64% o'r farn eu bod yn gallu bod yn rhan o 'brosesau gwneud penderfyniadau'.

**Dywedodd Dros 60%** o aelodau taw 'gwell diet' oedd un o fuddion pwysicaf bod yn aelod o AGG.

Dywedodd dros 60% o aelodau taw 'gwell diet' oedd un o fuddion pwysicaf bod yn aelod o AGG. Nododd nifer sylweddol o ymatebwyr iddyn nhw wneud 'dewisiadau iachach' a dywedodd 58% eu bod yn bwyta mwy o ffrwythau a llysiau. Roedd 58% hefyd wedi gwella eu sgiliau coginio ac roedd bron 80% wedi cynyddu amrywiaeth y bwydydd yn eu diet ac wedi arbrofi gyda chynhwysion newydd.

Roedd Addysg, yn gyffredinol, yn rhan bwysig o AGG. Dywedodd 61% o aelodau i'w dealltwriaeth o ddulliau cynhyrchu bwyd wella a dywedodd 55% o aelodau iddyn nhw ddysgu sgil newydd. Nid yw'r rhain o reidrwydd yn gysylltiedig â bwyd, ac roeddynt yn cynnwys gweinyddu busnes, cynnal a chadw gwefan, sgiliau ym maes cyfryngau cymdeithasol a threfnu digwyddiadau.

Roedd dau fusnes yn gweithio'n uniongyrchol gydag ysgolion. Roedd y plant yn cyfrannu at greu'r cynhwysion ac at baratoi'r bwyd (pitsa a chawl) a dysgu am fwyd a chynaliadwyedd yn gyffredinol. Roedd busnes arall yn gweithio gyda Chanolfan Amaethecoleg a Chydnerthedd Dŵr (CAWR) ym Mhrifysgol Coventry ar brosiect gwyddoniaeth i ddinasyddion ym maes gwneud penderfyniadau ar lefel gymunedol mewn perthynas â systemau bwyd cynaliadwy.

**"Un o'r prif fuddion yw cysylltu â phobl sy'n arwain at fwy o hyder"**

**AGG i'r arolwg**

**"Mae treulio amser ar y safle yn codi f'ysbryd ac rwyf yn teimlo'n bositif – hyd yn oed ar ddiwrnod gwlyb!"**

**AGG i'r arolwg**

**"Teimlaf fy mod yn rhan o'r ateb, nid rhan o'r broblem."**

**AGG i'r arolwg**

**"Rwyf wedi dechrau coginio popeth o'r cychwyn cyntaf. Dwi'n mwynhau arloesi pan welaf pa lysiau sydd gennyf."**

**AGG i'r arolwg**

**"Mae'r plant yn gweld y cnydau yn y caeau wrth inni gyrraedd i gasglu'n llysiau."**

**AGG i'r arolwg**

**"Rydym wedi dysgu am ofalu am dda byw, adnabod planhigion; ecoleg yr afon rôl anifeiliaid sy'n pori o ran bioamrywiaeth a mwy."**

**AGG i'r arolwg**

Roedd mwyafrif yr aelodau (62%) o'r farn fod yr AGG yn cynnwys pob adran o gymdeithas, ac roedd achosion o eithrio yn bennaf oherwydd nad oedd safleoedd yn hygyrch o safbwynt cludiant cyhoeddus. Er hynny, roedd rhai aelodau AGG a nifer o gynhyrchwyr yn cyfaddef fod eu haelodaeth yn dueddol o ddod o adrannau mwyaf cyfoethog cymdeithas.  Roedd rhai aelodau o'r farn fod ymrwymo i daliadau misol rheolaidd yn helpu gyda chyllidebu a bod mynd i'r archfarchnad yn llai aml yn lleihau prynu bwyd 'jync' ac ar hap, ac felly roedd yn helpu gwneud bwyd da'n fwy fforddiadwy. Roedd rhai busnesau wedi cymryd camau i gynnwys pobl ar incwm is er enghraifft i ddefnyddio cynlluniau talu ymlaen llaw gyda'r sawl ar incwm uwch yn talu mwy, a thrwy weithio gyda banciau bwyd a hwyluso rhannu gwaith.

# Cyweddu strategaethau

Gall AGG gyfrannu at nodau rhai o bolisïau, strategaethau a deddfwriaethau  pwysig Llywodraeth Cymru. Mae AGG yn berthnasol i lawer o nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Mae'n gweddu'n agos hefyd ag amcanion y Cynllun Ffermio Cynaliadwy newydd, megis: potensial uchel y farchnad; rheoli risg yn well; cydnerthedd a pharatoi at y dyfodol; cynhyrchu bwyd mewn ffordd gynaliadwy; gwell iechyd a llesiant; ac addysg. Mae hyn yn hollol berthnasol i Ddeddfau eraill megis Deddf Amgylchedd Cymru ac eraill.

**Nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol:**

### Cymru lewyrchus



**Cyfraniad:**
Gwaith gwledig; defnydd effeithlon o adnoddau; cymunedau deallus.

### Cymru gydnerth




**Cyfraniad:**
Cydnerthedd economaidd model busnes AGG; cydnerthedd amgylcheddol trwy gynhyrchu ar lefel gynaliadwy.

### Cymru iachach



**Cyfraniad:**
Gwell iechyd meddwl a llesiant a diet gwell.

### Cymunedau cydlynus



**Cyfraniad:**
Cynyddu rhyngweithio cymdeithasol , cymunedau gyda chysylltiadau gwell.

### Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang



**Cyfraniad:**
Dulliau cynhyrchu bwyd sy'n gyfrifol o safbwynt amgylcheddol.



# Busnesau a phrosiectau bwyd cymunedol eraill

Ac eithrio rhannu risg, nid yw'r buddion a nodwyd yn yr astudiaeth hon  yn unigryw i AGG. Mae sefydliad Ffermydd a Gerddi Cymdeithasol wedi adnabod 36 o fusnesau bwyd cymunedol eraill, nad oedd yn uniaethu ag AGG ond oedd yn rhannu llawer o brif nodweddion y model megis cynhyrchiant cynaliadwy, gwirfoddoli, addysg a digwyddiadau cymdeithasol. Roedd arolwg gwaelodlin gan Tyfu Cymru wedi adnabod 27 o gynlluniau blychau llysiau ychwanegol yng Nghymru; mae'n debyg y bydd llawer o'r rheiny'n manteisio ar lefel uchel o ffyddlondeb cwsmeriaid, a hwyrach bod rhai'n talu trwy archebion sefydlog wythnosol neu fisol.

Yn ogystal, mae o leiaf 326 gardd gymunedol a 24 perllan gymunedol, sy'n cynnig buddion tebyg o safbwynt iechyd meddwl a llesiant, diet, rhannu sgiliau ac addysg, a llawer o fuddion cymdeithasol eraill, ond sy'n canolbwyntio llai ar gynhyrchu ffrwythau a llysiau ar lefel fasnachol.

# Cyfeiriadau

**Little, Tony; Giles, Nikki (2020)** Evaluation of the Impact of Community Supported Agriculture in Wales. Ffermydd a Gerddi Cymdeithasol a Tyfu Cymru/ Lantra

**Mitchell, Gary (2020)** 'Research Findings for Community Grown Food Sites Across Wales'. Ffermydd a Gerddi Cymdeithasol

**Wheeler, Amber (2020)** 'Wales Fruit and Vegetable production study 2020 for Tyfu Cymru'. Lantra Cymru

